

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Gwyn H. Davies (Hiraethog) yng nghartref Yr Hen Ficerdy y penwythnos diwethaf. Gŵr tawel a hoffus ydoedd, a diolchwn i bawb a fu'n gofalu amdano, yn arbennig felly dros y flwyddyn ddiwethaf hon pan fu i'w iechyd dorri. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu oll, gan weddio y bydd Duw yn gwarchod drostynt.
- Anfonwn ein cofion at Gwenfyl Williams (Tanyfron) a Morfudd Williams (Henllan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Cyflwynwn y ddwy i ofal tyner ein Duw gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Anfonwn ein cofion hefyd at Aled Owen (Llanefydd) gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar. Gobeithio ei fod yntau bellach yn cryfhau ac yn gwella bob dydd.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Kate Davies (Coed Môr, Abergele); Mrs Menna Owen, Miss W J Roberts, a Mrs Edith Maloney (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwythau i ofal yr Arglwydd a diolchwn am bob un ohonynt.
- Llongyfarchiadau calonnog i Huw Edwards (Tanyfron) a Manon Lloyd Jones (Hiraethog) ar enedigaeth mab, Alun Caradog (Crad). Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.

I ddod

- **TAITH GERDDED HAMDDENOL** – nos Fercher, Gorffennaf 27ain. Cyfarfod ger Capel Peniel am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb!
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - **Cwrs Ieuenticid i flynyddoedd 7 – 11:** Gorffennaf 25-29
 - **Anhrefn Awst 8 – 12 oed:** Awst 8-11
 - **Souled Out 15+ oed:** Awst 13-18*Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn fydd yn mynd i'r Coleg, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen i chi anfon ffurflen archebu ynghyd â blaendâl i sicrhau lle.*
 - **Aduniad Llanw:** Medi 23-24
- **OEDFA GOLLWNG ANEURIN O'I DDYLETSWYDDAU FEL GWEINIDOG YM MRO ALED** nos Sul, Medi 11eg am 6.00.
- **CYFARFOD ORDEINIO A SEFYDLU DR RHODRI GLYN YN WEINIDOG AR EGLWYSI BRO ALED** prynhawn dydd Sadwrn, Medi 17eg (amser i'w gadarnhau).

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Gorffennaf 2016

Darlleniad y Dydd

2 Corinthiaid 8:1-7

(BCND tud.201 / BCN tud.183)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r gwasanaethau heddiw ar ddechrau mis Gorffennaf! Diolch i chi am y croeso adre ac am eich gweddïau yn ystod cyfarfod y 'Council for World Mission' (CWM) a fu'n cael ei gynnal yr wythnos diwetha. Diolch i Sarah hefyd am ei neges yn y rhifyn diwetha o Llais Bro Aled ynglŷn â'r newidiadau yn ein perthynas ag Ewrop. Roeddwn yn hedfan o Paris nos Wener ar y ffordd gartre ac roedd hi'n teimlo'n wahanol rhywsut – rhyw deimlad na fydd pethe cweit yr un fath eto. Er gwell, er gwaeth, mae yna newid sylfaenol iawn wedi digwydd ac mae gofyn am arweiniad doeth iawn ar hyn o bryd.

Mae 'na bryder am y cynnydd mewn hiliaeth sydd wedi cael mwy o ryddid i ddod i'r wyneb yn ystod yr ymgyrchu ac ers y bleidlais. Mae pobl wedi cael rhyw 'ganiatâd' i ddweud pethe mawr a hyll am bobl eraill o genhedloedd a chrefyddau eraill. Wrth edrych yn ôl dros hanes rhyfeloedd y byd, cofiwn nad oes yr un gwn wedi ei danio heb fod geiriau wedi eu tanio yn gyntaf. Mae ganddom ni i gyd fel Cristnogion gyfrifoldeb mawr i beidio â mellithio yr un person byw hefo'n geiriau na'n hagweddu. Rydan ni'n credu yn y Duw sydd wedi creu pob un ohonom a bod ganddo Ef yr hawl terfynol ar bawb. Mae Crist wedi dangos ei gariad tuag bawb yn y byd hefyd, cofiwn, trwy farw trosom. Gorchymyn i garu ein gilydd sydd gennym fel Cristnogion – caru 'fel y cerais i chi' – caru Duw a charu cymydog fel ni ein hunain.

Yn un o gyfarfodydd CWM, cawsom gyflwyniad gan ddydd o Balesteina yn dweud wrthon ni sut fywyd roedd o'n ei gael fel dinesydd ym Methlehem. Roedd ei deulu wedi byw ym Methlehem erioed ac ar draws y stryd i'r lle y tybir roedd y llety a'r stabl lle cafodd Crist ei eni! Wrth gyflwyno ei hun dywedodd fod yna bosibilrwydd cryf fod ei hen, hen, hen, hen nain wedi magu'r Iesu! Roedd o ei hun yn Gristion Palestinaidd ac roedd ganddo hanesion ysgytwol am y trais a'r gormes cyson sydd ar y Palestinaid ar hyn o bryd. Mae'r Iddewon yn gweithredu'r tri dull mwyaf atgas o reoli pobl sef: adeiladu muriau enfawr i wahanu'r boblogaeth a rhwystro eu trafndiaeth arferol; creu math o 'reservation' fel y gwnaethpwyd hefo Indiaid brodorol America – a hynny ar sail ethnig; ac yna gwrthod hawliau dynol sylfaenol i brynu na datblygu na masnachu'n rhydd hefo gwledydd cyfagos. Dyma dynged y Palestinaid ar hyn o bryd ac mae'n frawychus meddwl fod y dulliau gormesol yma yn dal i dderbyn cymeradwyaeth gan wladwriaethau 'goleuedig'.

Tybed sawl mur arall a gaiff ei godi eto yn ein byd ni – ac yn ein gwlad ni o hyn ymlaen? Onid chwalu muriau a wnaeth yr Arglwydd, a'n gwneud yn ddinasyddion yr un wlad ac yn un teulu? (Effesiaid 2:14-23)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 3^{ydd}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn pregethu.
- Mercher – 6^{ed}
- Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 7.30. (Paned am 7.15.)
- Iau – 7^{fed}
- Cynhadledd Cymru Gyfan** – “Cenhadaeth newydd i Gymru” yn eglwys ‘Kinmel Bay Church’, Y Rhyl LL18 5EY o 10.00 – 4.00. Y prif siaradwr fydd David Ollerton. Mae croeso i bawb, a hynny yn rhad ac am ddim. Cewch yno hefyd gopi o lyfr a ysgrifennwyd gan David Ollerton, ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Meirion Morris. Ynddo, ceir ffrwyth ei waith ymchwil a chyflwyniad gwerthfawr i unrhyw un sy'n ceisio deall cenhadaeth yng Nghymru. Cewch ragor o fanylion ar wefan cymrugyfan.org. Bydd paned ar gael ond dewch â phecyn bwyd hefo chi.
- Gwener – 8^{fed}
- CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Sul nesaf – 10^{fed}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd Mr Joseff Edwards yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Yn dilyn yr oedfa, bydd Cyfarfod Eglwys ar gyfer holl aelodau Capel y Waen.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

PWYSIG - Derbyn yn Aelodau

Rydym wedi bod yn trio penderfynu pryd fyddai orau i gynnal y sesiynau ar gyfer yr ieuencid 15+ sydd wedi dangos diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau wedi hynny. Oherwydd ein bod yn cael gweinidog newydd ym mis Medi, mae bwriad i gynnal sesiynau ar gyfer y rhai iau yn ystod tymor yr hydref, ond os oes 'na rai fydd yn mynd i'r Coleg neu fydd yn symud oddi cartref ac sy'n awyddus i gael eu derbyn cyn hynny, wnewch chi gysylltu â Mair (870632 / 07900 627536) y **penwythnos hwn**, os gwelwch yn dda? Mae'n bosib y bydd y sesiynau ar eu cyfer hwy yn cychwyn yr wythnos hon.

Manylion Cyswilt

Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Darllenid Wythnos Nesaf

Malachi 4:1-3 (BCND tud.86g / BCN tud.793)